

# Diweddariad pellach gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban yn dilyn y cynnydd mewn achosion o pancytopenia cathod

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi bod yn gweithio'n agos gyda Fold Hill Foods yn ystod yr ymchwiliad i'r bwyd cathod a alwyd yn ôl. Mae'r cwmni wedi bod yn cydweithredu'n llawn.

Nododd canlyniadau profion helaeth lefelau uwch o fycotocsinau mewn rhai samplau o'r bwyd cathod a alwyd yn ôl. Mae hyn yn cynnwys cyfansoddion penodol o'r enw T2 a HT2. Nid yw'r cynhyrchion hyn ar werth mwyach.

Ceir mycotocsinau mewn rhai mathau o fwyd a bwyd anifeiliaid, ac nid yw hyn, ynnddo'i hun, yn golygu taw nhw yw achos y pancytopenia cathod. Nid oes cysylltiad achosol wedi'i bennu rhwng pancytopenia a'r cynhyrchion bwyd cathod a alwyd yn ôl.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, mae Fold Hill Foods yn gweithio gyda'i awdurdod lleol i gymryd camau i aildechrau cynhyrchu.

## Y camau nesaf yn yr ymchwiliad

Bydd dull amlasiantaethol yn parhau i geisio canfod achosion y pancytopenia. Wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg, byddwn ni'n adolygu ein dull o reoli unrhyw risgiau a nodwyd mewn bwyd anifeiliaid ac yn hysbysu'r diwydiant fel y gallant gymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol o ganlyniad i'n canfyddiadau.

Cyhoeddwyd manylion yr [hysbysiad galw cynnyrch yn ôl](#) gwreiddiol ar 17 Mehefin.

## Cwestiynau cyffredin

Rydym ni'n deall pa mor ofidus fu'r ddau fis diwethaf i berchnogion cathod ac rydym ni'n gwybod pa mor bwysig yw canfod tarddiad yr achosion pancytopenia cathod diweddar.

?

Nid yw ein gwaith profi a dadansoddi hyd yma wedi dod o hyd i gysylltiad achosol â'r achosion pancytopenia, ond mae ein hymchwiliad yn parhau a byddwn ni'n darparu diweddariad unwaith y bydd gennym ni ragor o wybodaeth.

### Oni achoswyd yr achos (*outbreak*) pancytopenia gan fwyd cathod?

Hyd yma nid yw profion wedi gallu canfod achos pendant; nid ydym ni wedi diystyru bwyd cathod nac unrhyw achosion posibl eraill chwaith.

**A yw'n ddiogel i unrhyw un sydd â'r bwyd cathod a alwyd yn ôl gartref ei fwydo i'w cathod?**

Ni ddylai perchnogion cathod fwydo unrhyw fwyd cathod a alwyd yn ôl i'w cathod a dylent barhau i ddilyn y cyngor yn ein rhybudd galw cynnyrch yn ôl.

### **Beth yw'r achosion posibl eraill rydych chi'n ymchwilio iddyn nhw?**

Rydym ni'n parhau i weithio gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) i nodi achos posibl y pancytopenia. Ar hyn o bryd nid ydym ni'n diystyru unrhyw achos posibl.

### **Pam mae'r cwmni'n cael aildddechrau cynhyrchu os nad yw'n sicr bod ei fwyd cathod yn ddiogel?**

Nid oes cysylltiad achosol wedi'i bennu rhwng pancytopenia cathod a'r bwyd cathod. ?

Nid ydym ni wedi gallu diystyru posibilrwydd cysylltiad â'r cynhyrchion bwyd cathod a alwyd yn ôl yn unig ac nid oes gennym ni dystiolaeth o gysylltiad rhwng pancytopenia a chynhyrchion eraill Fold Hill Foods.?

### **Mae rhai negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol wedi dangos canlyniadau profion mycotocsinau, gan awgrymu bod bwyd yn anniogel i gathod. Pam nad ydych chi wedi gweithredu?**

Rydym ni'n ymwybodol o rai negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, lle mae canlyniadau profion wedi'u camddehongli fel rhai sy'n dangos perygl i gathod.?

Nid yw presenoldeb mycotocsinau mewn bwyd cath o reidrwydd yn peri risg i gathod. Mae mycotocsinau yn sylweddau sy'n bresennol yn naturiol ac a gynhyrchir gan rai mathau o lwydni (ffyngau) a all dyfu ar amrywiaeth o wahanol gnydau a bwydydd anifeiliaid.

### **Os yw mycotocsinau i'w gweld yn eang mewn bwyd anifeiliaid, a ddylai pobl boeni am frandiau eraill o fwyd cath?**

Na. Nid oes dystiolaeth sy'n cysylltu unrhyw gynhyrchion eraill â phancytopenia cathod.